**PWYLLGOR PENSIYNAU 14-09-2026**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Cadeirydd: Cyng. Elin Hywel
Is-gadeirydd: Cyng. John Pughe Roberts

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Gwynfor Owen, Geraint Parry, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Orffenanf 2026 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau i nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith Partneriaeth Pensiwn Cymru ynghyd a phenderfyniadau cyfarfod mis Gorffennaf o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl - corff sy'n gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth gyda Chadeirydd pob cronfa yn eistedd arno).

Adroddwyd bod ffurflen flynyddol ar gyfer cyfrifon y Bartneriaeth wedi ei drafod ynghyd a chadarnhad bod WPP IM Co wedi derbyn y nodyn 'minded to approve' (er bod 'minded to approve' wedi dyddio yn sylweddol erbyn hyn), buddsoddi cyfrifol, y gofrestr a'r polisi risg.

Yn unol â'r arfer, adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2025/26, diweddariad y gweithredwr Weystone ac adroddiad perfformiad Russell Investments - ystyriwyd bod y chwarter dan sylw wedi bod yn un eithaf sefydlog. Nodwyd bod WPP IM Co wedi rhoi diweddariad ar y cynnydd ers iddynt sefydlu, yn benodol ar faterion llywodraethu, y gweithlu a gweithrediadau. Amlygwyd bod oddeutu 15 aelod o staff bellach yn gyflogedig gan y cwmni sy'n tyfu yn raddol, a bellach wedi lleoli eu swyddfeydd newydd yng Nghaerdydd - y cwmni bellach yn cael ei weinyddu o dan gyfeiriad Caerdydd ac nid Caerfyrddin.

Ers cyfarfod mis Gorffennaf, adroddodd y Rheolwr Buddosddi ar ddiweddariadau pellach gan nodi bod WPP IM Co bellach wedi derbyn cofrestriad swyddogol gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (Financial Conduct Authority (FCA). Nodwyd, ers y 1af o Fedi, bod y cwmni wedi cymryd rôl fwy blaenllaw yn rheoli asedau Gwynedd, e.e. y cwmni sydd bellach yn talu trosglwyddiad unrhyw arian i rheolwyr buddsoddi ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd, ac yn monitro symudiadau o fewn cronfeydd y Gronfa. Ategwyd nad yw'r rheolaeth yn digwydd dros nos, ac y bydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod trosiannol i adeiladu perthynas gyda'r cwmni buddsoddi, ac i ffurfioli sut bydd gwybodaeth yn cael ei rannu rhwng y cwmni a'r Gronfa dros y misoedd nesaf.

Er gwybodaeth, nodwyd bod sesiwn anffurfiol rhwng y pwyllgor a'r cwmni buddsoddi wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 21ain 2026 gyda disgwyliad hefyd i'r cwmni buddsoddi gyflwyno eitem yng Nghyfarfod Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd a chyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ym mis Tachwedd; yn ogystal â chynhadledd buddsoddi sydd wedi ei threfnu ym mis Hydref; yn gyfnod newydd a chyffrous gyda chyfleoedd i gydweithio.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nodwyd mai buddiol fydd y gynhadledd – yn fodd o gael gwybodaeth am y rolau ac am drefnaidau craffu gwaith y cwmni buddsoddi.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r diweddariad er gwybodaeth**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor 2025/26. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod fel Pwyllgor (Mawrth 2025) wedi caniatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd-fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, yn unol â chanllawiau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau hynny roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod £1.7m o log wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau oedd yn uwch na'r £1.6m oedd yn y gyllideb. Nodwyd bod yr incwm llog yn cael ei rannu ar sail balans dyddiol, gyda Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi derbyn £2.1 miliwn o incwm yn y flwyddyn dan sylw (sydd yn amlygu bod balansau Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bod yn rhan sylweddol o falansau Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn dan sylw).

Cyfeiriwyd at y cyd-destun gweithgareddau buddsoddi, gan nodi bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion – y cronfeydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion, adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n dda gyda chod ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor er bod un achlysur lle'r oedd terfynau hanesyddol wedi eu defnyddio; tynnwyd sylw at y mater yn syth a cadarnhawyd bod rheolaeth gadarn dros yr arian.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a'r balans diwedd blwyddyn, nodwyd bod yr incwm llog yn cael ei rannu ar sail balans dyddiol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r diweddariad er gwybodaeth**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2025/26

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad drafft yn darparu manylion am weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. Adroddwyd bod yr adroddiad wedi ei gwblhau yn unol â chanllawiau statudol y Bwrdd Cynghori Cynllun (Scheme Advisory Board) ac yn ymateb i'r gofyn i adnabod a chyflwyno'r wybodaeth drwy dri chategori - rhaid (must), dylid (should) ac efallai (may). Sicrhawyd bod popeth sydd yn cael ei adnabod fel 'rhaid' a 'dylid' wedi cael ei gynnwys, oni bai nad oedd y wybodaeth ar gael. Yn sgil hynny eglurwyd bod yr adroddiad blynyddol bellach yn un swmpus ac yn cynnwys cyfuniad o adroddiadau blynyddol gan y Pwyllgor Pensiynau, y Bwrdd Pensiwn, Partneriaeth Pensiwn Cymru, gwybodaeth gan yr Uned Weinyddol, a'r Uned Buddsoddi.

Nodwyd y bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru fel rhan o archwiliad y cyfrifon ac y bydd y fersiwn derfynol yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd, Tachwedd 2026.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r gwaith. Ategwyd bod yr adroddiad yn un manwl iawn a'r cynnwys yn dda.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pherfformiad 'Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i aelodau'r cynllun gyda chwblhau trosglwyddiad i mewn' a'r angen i'w cwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith (canran a gwblhawyd o fewn targed y Gronfa yn 3.30% a 65.8% o fewn y targed cyfreithiol), nodwyd mai targed tebygol gan CIPFA oedd yma ac nid targed mewnol gan Uned Weinyddol y Gronfa. Er bod cyfuniad o staff newydd, dibrofiad yn yr Uned ac elfennau tu allan i reolaeth yr Uned yn cyfrannu at y perfformiad isel, bod bwriad gwella'r perfformiad i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad draft**

## 8. ADRODDIAD 'THE GOOD ECONOMY'

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlygu bod Cronfa Bensiwn Gwynedd, ochr yn ochr â saith cronfa arall yng Nghymru, wedi comisiynu adroddiad gan The Good Economy er mwy arddangos gwaith a gyflawnwyd gan y cronfeydd pensiwn ar gyfer buddsoddiadau lleol yng Nghymru.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn crynhoi maint y buddsoddiadau lleol y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi eu gwneud a'r effaith posib. Ar lefel genedlaethol adroddwyd bod £139m wedi ei fuddsoddi yng Nghymru, a hynny o fewn 97 ased, ynni glan, cyllid busnesau bach a chanolig (Small and Mediun sized Enterprises - SME), tai ac eiddo. Cyfeiriwyd at y map oedd yn dangos lleoliadau'r buddsoddiadau yng Nghymru, ac yn anffodus, oherwydd natur demograffeg a diwydiannau Cymru, bod nifer helaeth ohonynt yn y De. Yng nghyd-destun buddsoddiadau'r bartneriaeth yn ardal ddaearyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd tynnwyd sylw at fuddsoddiadau yn Aberconwy, Ynys Môn, Bangor a meddygfeydd yng Ngwynedd.

Amlygwyd, o ran portffolio ariannol Gwynedd nodwyd bod mwyafrif o arian Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ei fuddsoddi yn ynni glan Capital Dynamics, gydag ychydig o'r cronfeydd isadeiledd yn buddsoddi mewn mân asedau ar draws y wlad.

Adroddwyd bod hwn yn gam cyntaf pwysig i grynhoi'r sefyllfa buddsoddi yng Nghymru, ac y bydd yn cynnig cymhariaeth dda yn y dyfodol i adeiladu arno. Ategwyd mai'r gobaith yw, gyda sefydlogrwydd WPP IM Co bydd gan y cwmni arbenigedd a phlatfform i fuddsoddi yng Nghymru, ac y bydd y sefyllfa yn cryfhau yn flynyddol. Pe bydd cyfle yn cael ei adnabod yn lleol gyda photensial i fuddsoddi ynddo, yna bydd modd rhannu'r wybodaeth gyda WPP IM Co i ddilyn i fyny ar y posibilrwydd - cyfeiriwyd at drafodaethau sydd eisoes yn cael eu cynnal gyda Chydbwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn un diddorol iawn
- Yn gam cyntaf pwysig i amlygu buddsoddiadau lleol yn ardal Cronfa Gwynedd
- Pryder cyn lleied o fuddsoddiadau sydd yng Ngwynedd
- Bod angen mwy o wybodaeth ynglŷn â lleoliadau'r buddsoddiadau yn enwedig y meddygfeydd
- Bod cyfle i adnabod buddsoddiadau posib yn lleol – yn sicrhau llais cryf i Gronfa Bensiwn Gwynedd
- Awgrym i ymweld â'r lleoliadau buddsoddi i gael gwell dealltwriaeth ohonynt

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Deallusrwydd Artiffisial (DA) ac os oedd bwriad buddsoddi yn y maes, nodwyd nad oedd cynlluniau ar y gweill i fuddsoddi yn lleol, ond bod cwmnïau sydd yn buddsoddi mewn ecwiti yn manteisio ar ddatblygiadau DA.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chael diffiniad o 'ynni glan' ac os oedd hyn yn cynnwys ynni niwclear, nodwyd bod y term yn cyfeirio at bedwar categori o ynni; solar, melinau gwynt ar y tir, Bio-egni (Bioenergy) a Storio Ynni ac nad oedd yn cynnwys ynni niwclear. Mewn ymateb, gwnned cais i'r PPC gyflwyno diffiniad o ynni glan a beth oedd sail eu categoreiddio o ystyried pryderon diwedd oes melinau gwynt. Ategwyd hefyd yr angen i ystyried yn ofalus os mai buddsoddi mewn ynni glan sydd yma neu'r ynni glanaf.

Mewn ymateb i bryderon am gwmni Bute Energy a'r ffaith nad oedd yn gwmni yn derbyn clod uchel, ac nad oedd rôl ffurfiol, amlwg gan y cwmni, a'r angen i graffu yn fanylach cyn buddsoddi mwy gyda'r cwmni, nodwyd bod y penderfyniad i fuddsoddi mewn prosiect ynni glan uniongyrchol yng Nghymru wedi ei wneud gan y Pwyllgor Pensiynau yn ystod tymor 2022/23, ac er yn derbyn bod newid yn aelodaeth y Pwyllgor a gwybodaeth newydd wedi dod i law am y cwmni ers cymeradwyo'r buddsoddiad, bod y Pwyllgor wedi pleidleisio ar y cynnig ac wedi cymeradwyo'r buddsoddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Nodyn:

- Cais am fwy o wybodaeth yn y buddsoddiadau sydd yn lleol i ardal Cronfa Bensiwn Gwynedd (yn benodol manylion lleoliadau cyfleusterau iechyd)
- Cais am ddiffiniad 'ynni glân'

## 9. GWEINYDDU PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd a'r

gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan Gronfa Bensiwn Gwynedd i ymateb i ddatblygiadau cyfredol, cynnal safonau gwasanaeth a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, a diweddariadau amrywiol brosiectau:

- Diweddariad Rheoleiddiol - Addas ar Gyfer y Dyfodol - pwyslais ar atebolrwydd, safonau proffesiynol a gwneud penderfyniadau effeithiol. Bydd gofyn i bob Cronfa CPLlL benodi Uwch Swyddog CPLlL dynodedig i reoli a gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn effeithiol a phenodi Person Annibynnol i gael ei gynnwys ar y Pwyllgor Pensiynau i ddarparu her allanol, cefnogi penderfyniadau cadarn a chryfhau goruchwyliaeth llywodraethu - penodiadau yn eu lle erbyn 31 Rhagfyr 2026
- Cynnal Adolygiad Llywodraethu i asesu effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu presennol - y gwaith i'w gwblhau erbyn 31 Ragfyr 2026
- Diwygiadau Mynediad a Thegwch CPllL - mewn ymateb i newididau a gyflwynwyd yn Ebrill 2026 i wella cydraddoldeb, hygyrchedd a thegwch ar draws y CPLlL. Y gwaith yn amlygu sialens o gysoni ac adnabod achosion perthnasol i'r diwygiadau
- Effaith ar weinyddiaeth - cais i'r Gronfa adolygu gweithdrefnau, asesu achosion hanesyddol, diweddaru prosesau gweinyddu a chyfathrebu Aelodau, a pharatoi ar gyfer gofynion adrodd newydd
- Diweddariad staffio - croesawu penodiad Prentis a Swyddog Pensiwn dan Hyfforddiant
- 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan nodi llwyddiant parhaus y porth gyda'r aelodaeth yn tyfu'n gyson gyda 8,200 o Aelodau eisoes wedi cofrestru porth newydd a gwaith pellach yn cael ei wneud i hyrwyddo'r safle. Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn archwilio cyfleoedd i ehangu ymarferoldeb y porth ymhellach sydd yn cynnwys cyflwyno ffurflenni digidol.
- Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol - oherwydd heriau sy'n deillio o drefniadau presennol y Gronfa gyda Clerical Medical, comisiynwyd Hymans Robertson i adolygu'r farchnad i ganfod gwell darparwr. Penodwyd Legal & General, sydd â phrofiad a buddion da, i ddarparu trefniadau cyfraniadau gwirfoddol ar gyfer aelodau'r Gronfa o'r Iaf o Fedi 2026
- System Gyflogres Newydd - cynlluniau presennol ar gyfer profi'r system newydd i ddechrau yn ystod tymor yr hydref 2026, gyda disgwyliad i'r system newydd ddarparu gwell data a chywirdeb mewn Gwybodaeth.
- Datrysiad McCloud - cynnydd yn parhau i fod yn gadarnhaol a gwaith ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith prosiect sydd yn weddill (yn unol â'r amserlen a gytunwyd).

Tynnwyd sylw at yr Arolwg Boddhad Gwasanaeth sy'n cael ei anfon at Aelodau ar ddiwedd prosesau allweddol, megis ymddeoliadau a thaliadau ad-dalu, i gasglu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd. Adroddwyd bod 89 o aelodau wedi cymryd rhan yn yr arolwg gyda'r canlyniad yn galonogol iawn (95% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu gytuno bod yr ansawdd o safon uchel a 97% yn cytuno'n gryf neu gytuno bod y gwasanaeth a ddarparir gan staff yn bodloni safon uchel).

Diolchwyd am yr adroddiad ac am grynodeb manwl o'r gwaith sydd yn cael ei gwblhau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â Diwygiadau Mynediad a Thegwch CPllL ac er yn cydnabod egwyddor y angen i sicrahu tegwch, beth fydd cost y gwaith a beth yw'r nifer posib o Aelodau fydd yn gymwys, nodwyd, o'r gwaith cychwynnol o adnabod Aelodau, mai nifer fach o Aelodau fydd yn elwa. Mewn ymateb i gwestiwn ategol, ynglyn â'r aelodau hynny fyddai wedi bod yn gymwys, ond sydd bellach wedi marw, nodwyd y byddai'r arian yn cael ei dalu i stâd yr Aelod hwnnw – i fynd i'r afael â chanfod pobl, nodwyd y psoiblrwydd o orfod defnyddio gwasanaeth olrhain. Ategwyd y byddai'r actiwiari yn ystyried y gost fel ffactor yn y prisiad nesaf.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

## 10. POLISÏAU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau adroddiad oedd yn cyflwyno dau bolisi gweinyddol allweddol i'w cymeradwyo. Nodwyd bod y polisïau yn hanfodol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn effeithiol ac yn gam sylweddol tuag at wella llywodraethu da. Nodwyd bod y Bwrdd Pensiwn wedi adolygu'r polisïau a'u bod yn hapus gyda'r cynnwys.

Trafodwyd y Polisïau yn unigol gan roi cefndir a chyd-destun y polisïau i'r Aelodau

- Darparu Amcangyfrifon Ymddeol
- Meincnodi a Thegwch

Diolchwyd am yr adroddiad. Croesawyd y gwaith a wnaed i ffurfioli'r polisïau gan gynnig hyblygrwydd mewn rhai achosion i Aelodau'r Gronfa.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo a mabwysiadu Polisi Darparu Amcangyfrifon Buddion Ymddeol**

## 11. POLISI DISGRESIWN GWEINYDDOL

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau Polisi Disgresiwn Gweinyddol i'r Pwyllgor ei gymeradwyo. Nodwyd bod angen i'r polisi arfaethedig ddangos cydymffurfiaeth gyda gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan sicrhau bod y trefniadau yn cefnogi gweinyddiaeth effeithiol, gyson a thryloyw. Eglurwyd nad oedd Polisïau Disgresiwn Gweinyddol y Gronfa wedi eu hadolygu na'u diweddaru'n gynhwysfawr ers nifer o flynyddoedd, gyda'r polisi blaenorol wedi ei gymeradwyo yn 2009. Adroddwyd bod nifer o newidiadau a chanllawiau CPLIL wedi cyflwyno disgresiwn ychwanegol ers 2009 ac felly yn ofynnol i'r awdurdodau gweinyddol ddiweddaru eu polisïau. Yn dilyn cymeradwyaeth y pwyllgor, y bwriad yw dod a'r polisi i rym yn syth a bod trefniadau yn eu lle i adolygu'r ddogfen yn flynyddol i sicrhau bod y polisi yn parhau'n gyfredol, yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weithredol ac yn bodloni gofynion rheoleiddio.

Cyfeiriwyd at saith newid arfaethedig i'r disgresiwn gan roi ychydig o gefndir i'r Aelodau ar y newidiadau a sut roeddynt yn cael eu ffurfioli. Ategwyd bod y Bwrdd Pensiwn wedi adolygu'r polisi a'u bod yn hapus gyda'r cynnwys.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â 'Gofynion Meddygol ar gyfer Cynlluniau Ychwanegol' ac os oedd rhestr neu wybodaeth ar gael ynglŷn â pha salwch sydd yn cael ei ystyried fel un 'difrifol' (o ystyried disgresiwn i wrthod cais lle mae pryderon iechyd), nodwyd bod trafodaethau ynglŷn â 'difrifoldeb salwch' yn cael eu cynnal gyda Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd y Cyngor, ond yn derbyn y sylw bod modd darparu rhestr .

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi bod y Bwrdd Pensiwn wedi adolygu'r polisi ym mis Gorffennaf 2026**
- **Cymeradwyo a mabwysiadau'r Polisi Disgresiynau Gweinyddol fel polisi Cronfa Pensiwn Gwynedd ar gyfer disgresiynau gweinyddol i dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn**

- **Awdurdodi Swyddogion i gyhoeddi a gweithredu'r polisi ac i gynnal adolygiadau blynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a gweithredol**

## 12. FFORWM CRONFA BENSIWN AWDURDODAU LLEOL (LAPFF)

Cyflwynwyd diweddariad ar lafar gan y Cynghorydd Stephen Churchman, sydd yn Aelod o Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF). Atgoffwyd yr Aelodau bod y Fforwm yn gwneud gwaith da o hyrwyddo'r safon uchaf o lywodraethu corfforaethol i ddiogelu gwerth hirdymor Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol.

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Fforwm ar yr 8fed o Orffennaf 2026 a cyfeiriodd y Cynghorydd at y prif bynciau / materion a drafodwyd; Materion Polisi, Adroddiad Ymgysylltu Chwarterol (Ebrill - Mehefin 2026) a Materion Gweinyddol.

Yng nghyd-destun materion polisi nododd bod adroddiadau wedi eu cyflwyno ar 'Deallusrwydd Artiffisial a Pherchnogion Asedau' a goblygiadau defnydd DA i gwmnïau sydd yn buddsoddi ynddynt, yr effeithiau ar y gweithlu, y risgiau cymdeithasol ac amgylcheddol posib, a disgwyliadau llywodraethu. Tynnwyd sylw bod angen llywodraethu cadarn dros ddefnydd DA fyddai yn cynnwys goruchwyliaeth gan y Bwrdd Gweithredol. Ategwyd bod y Fforwm wedi gwneud cais am adroddiad dilynol fyddai'n adnabod a blaenoriaethu sectorau a chwmnïau i LAPFF ymgysylltu a hwy ynghylch Deallusrwydd Artiffisial.

Mater arall a drafodwyd yn y Fforwm oedd 'Forever Chemicals' a Stiwardiaeth Dŵr gyda LAPFF yn blaenoriaethu ymgysylltu gyda chwmnïau cemegol sy'n cynhyrchu'r cemegau hyn, gan adlewyrchu'r risgiau amgylcheddol, iechyd ac ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â'r sylweddau hyn.

Nododd y Cynghorydd y byddai'n rhannu ei adborth ysgrifenedig gyda'r Aelodau a'r Swyddogion.

Diolchwyd am y diweddariad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu ,bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

## 14. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.01.2026 - 31.03.2026

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn cyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn ar faterion buddsoddi cyfrifol. Cyfeiriwyd at y meysydd oedd wedi cael sylw Robeco yn ystod y chwarter dan sylw a'r wybodaeth oedd yn cynnwys manylion am y nifer gweithgareddau a'r ymgysylltu a gwblhawyd gyda rhai cwmnïau mawr gyda phwysigrwydd rhyngwladol. Nodwyd hefyd mai thema ymgysylltu'r chwarter dan sylw oedd Ymgysylltu Sofran (Sovereign Engagement) sydd yn darparu ffordd effeithiol i fuddsoddwyr ymgysylltu gyda'r rhai sydd yn ffurfio'r polisïau mewn amryw o wahanol wledydd a llywodraethau.

Trafodwyd y wybodaeth

Diolchwyd am yr adroddiad gan groesawu manylder y wybodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r adroddiad chwarterol**

## 15. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD HYD AT 30 MEHEFIN 2026

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar berfformiad y Gronfa hyd at 30 Mehefin 2026. Trafodwyd perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi mewn manylder a'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen. Nodwyd bod Cwmni Rheoli Buddsoddiadau, WPP IM Co, wedi'i sefydlu aac mai cyfrifoldeb y cwmni fydd gweithredu'r dyraniad asedau strategol trwy benderfynu ar y dyraniad asedau tactegol, dewis rheolwr buddsoddi, dewis stoc, stiwardiaeth buddsoddi a rheoli arian parod.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd y wybodaeth

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ystyried defnyddio e.e, MOIC (Multiple on Investment Capitol) sydd yn mesur cyfanswm gwerth buddsoddiad o gymharu â'i gost gychwynnol, cytunwyd bod hyn yn bosib. Amlygwyd, yn hanesyddol bod y Pwyllgor wedi bod yn cynnal Paneli Buddsoddi er mwyn adolygu perfformiad buddsoddi'r rheolwyr mewn manylder, ond wrth i gwmni buddsoddi WPP IM Co sefydlogi, y bwriad yw y bydd adroddiadau mwy cynhwysfawr yn cael eu cyflwyno ar y perfformiad yn uniongyrchol i'r Pwyllgor yn rheolaidd.

Ategwyd y byddai unrhyw sefyllfa o danberfformio yn cael sylw teg a phriodol ac yn y chwarter nesaf bydd modd gwneud cais am wybodaeth Cyfradd Enillion Mewnol (Internal Rate of Return - IRR) i gael gwybod mwy am y perfformiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:30